

# o'r cyrion

Dyma wyth stori gyffrous wedi eu gosod mewn cyd-destun cyfoes. Yr hen natur ddynol yw'r thema gyffredin – dyw rhagrith, twyll a hunan-dwyll byth yn bell i ffwrdd – ond mae'r sefyllfaoedd yn annisgwyl ac yn ...wel, yn wahanol!

Pobl yr ymylon yw llawer o'r cymeriadau, yn sylwi ar fywyd o'r cyrion, heb fod yn aelodau cyflawn o'r llwyth. Trwy eu gweithredoedd y down i'w hadnabod. Hynny, a'u hiaith liwgar, ddi-lol, sy'n rhan mor hanfodol o'u personoliaeth.

Brodor o Gwm Afan yw'r awdur ond, bellach, mae e'n byw yng Nghaerdydd. Cyhoeddodd ddwy nofel – un i oedolion ac un ar gyfer plant, ond hon yw ei gyfrol gyntaf o storïau byrion.

Delwedd y clawr: Aled Hughes

ISBN 1-84323-698-2

9 781843 236986

£5.99

www.gomer.co.uk

o'r cyrion

ioan kidd



Gomer

# o'r cyrion

## ioan kidd

# Angladd yn y Wlad

Aethon ni i gyd i'r wlad y prynhawn hwnnw, Benjamin a minnau a'r plant. Do, fe ddaeth y plant – Duma, Oupa a Mojalefa bach. A daeth Theresa, fy chwaer, a Francis, ei gŵr. Aethon ni i gyd i'r wlad y prynhawn hwnnw yn un teulu mawr, yn deulu cyfan, i'r angladd yn y wlad. Mynd er mwyn Martha wnaethon ni ac er parch i Reid, ei mab. Fe'i lladdwyd gan y milwyr ac yntau ond yn bymtheg oed, yr un oedran â Duma fy mhlentyn hyna. Mae'n anodd meddwl ei fod e'n farw. Mae'n anodd meddwl nad oedd modd osgoi'r gyflafan. Mae'n anodd dychmygu'r bwled yn treiddio i'w ymennydd a'r gwaed coch yn araf lifo ar hyd ei dalcen du. Bu farw ar fympwy'r heliwr fel carw yn ceisio dianc rhag y dryll. Mab Martha, fy ffrind.

Diwrnod ei angladd codais yn fore, a'r dreflan gyfan o hyd yn breuddwydio'u delweddau du a gwyn, a'r rheini'n cael penrhyddid i ymgymysgu yn eu cwsg. Roedd yr haul eisoes yn uchel yn yr awyr las uwchben De Affrica, ac edrychais ar y dreflan, ac ar gartrefi fy nghymdogion. Miloedd o gytiau diolwg yn ymestyn yn rhesi unffurf, digymeriad bant o olwg a chydwybod y ddinas wen. Ac o'u cwmpas roedd y bryntni a'r drewdod yn gymysg â'r trugareddau modern, ond ail-law, a roddwyd gan y gwynion i'n cadw rhag cwyno. Ac yn y gwynt gallwn glywed y sôn am chwyldro; yr wylofain gorgyfarwydd a fynnai beidio â chodi'n storm. Doedd dim byd wedi

newid yn ystod pymtheng mlynedd, ond bod Martha, fy ffrind, wedi mynd. Cafodd orchymyn i symud i gartre llai am fod ei theulu'n llai na'r gweddill yn ein rhes. Martha, fy ffrind gorau yn y byd.

Bymtheng mlynedd yn ôl roedden ni'n dwy yn disgwyl ein plant cynta. Dwy ddarpar fam. Dwy ffrind oedd yn debycach i ddwy chwaer. Roedden ni'n arfer byw y drws nesa i'n gilydd yr adeg honno ac yn gweithio yn yr un faestref grand. Morwyn oedd Martha yng nghartre meddyg, a'm gwaith innau oedd glanhau tŷ Mr Tremeer, y plisman, a gofalu am Peter, ei fab. A phob nos ar ôl cwpla yn y gwaith bydden ni'n dwy yn teithio gyda'n gilydd ar y bws llawn iawn adre o faestrefi'r gwynion yn y ddinas fawr. Gwneud pryd o fwyd wedyn ac eistedd mas tu fas wrth ochr yr hewl sych a llychlyd a siarad am y plant oedd ynon ni. Siarad am ein gwŷr. Siarad am ein dyheadau gwyllt. Dyddiau dedwydd oedd y dyddiau hynny. Dyddiau diniwed, a'r dyfodol heb ddigwydd. Nawr dim ond gorffennol sydd. O'r braidd bod yr un ohonon ni wedi meddwl, bymtheng mlynedd yn ôl, y buasai'n rhaid mynd i'r fath angladd yn y wlad.

Roedd hi'n angladd fwy na'r cyffredin, a hynny mewn cyfnod pan oedd pob angladd yn fawr. Wrth i ni gyrraedd y fynwent ar y bryn gallwn weld y lluoedd oedd wedi dod ynghyd, rhai i wylio, rhai i wylo a rhai i gladdu eu dicter a'u rhwystredigaeth yn y pridd. Ac o gwmpas y fynwent gallwn weld y lluoedd eraill yn ein herio a'n pryfocio â'u diffyg parch. Milwyr arfog mewn cerbydau arfog, plismyn arfog a'u cŵn, yn syllu, yn chwerthin, yn gwawdio â holl hunanhyder eu hil. A rhyngon ni a nhw roedd llygaid y byd. Rhyngon ni a nhw roedd y

newyddiadurwyr a'r camerâu teledu, yn barod i dystiolaethu, ond yn ffaelu dylanwadu. Rhyngon ni a nhw roedd cyfandir o fwlch.

A cherddais gyda'm teulu trwy glwydi'r fynwent i chwilio am y fam oedd yn claddu ei mab. Cerddais heibio i hen gymdogion, arweinwyr eglwysig ac aelodau o'r Gyngres. Ac o'r diwedd fe'i gwelais. Gwelais fy ffrind yn gwarchod yr arch. Safai'n unig, yn ddifynegiant, fel ynys ynghanol môr o donnau du, yn ymgorfforiad o gyflwr De Affrica. Ac am eiliad gallwn weld y ferch feichiog a adwaenwn bymtheng mlynedd ynghynt. Ni ddywedais ddim am fod gormod i'w ddweud. Roedd gormod i'w deimlo. Gafaelodd yn fy mraich a diflannodd fy nghywilydd. Ac felly y safon ni'n dwy, fraich ym mraich, drwy gydol y gladdedigaeth, trwy'r areithiau, a thrwy emyn y bobl ddu. Dwy fenyw ddu ac un wedi colli mab.

Ac yna fe ddechreuodd, heb reswm, heb rybudd. Daeth y saethu, y gweiddi, y sgrechian, y cyfarth. Daeth milwyr, a daeth y plismyn a'u cŵn. Fe ddaethon nhw o bobman, dros furiau'r fynwent, gan ruthro tuag aton ni. A gwasgarodd fy mhobl fel haid o wartheg, yn ffoi rhag y bwled, y *sjambok* a'r nwy. Gwelais blant yn llefain a llanciau cydnerth yn plygu dan ergyd y chwip. Gwelais bobl mewn oed yn rhedeg rhag y cŵn. Gwelais bastynau a drylliau. Gwelais ddiwedd angladd mab fy ffrind.

Arestiwyd cannoedd. Diflannodd fy meibion.

*  *  *

Mae gyda fi dri mab, Duma, Oupa a Mojalefa bach, fel rwyf eisoes wedi sôn. Blwyddyn sydd rhwng pob un, a'r

ieuenga'n dair ar ddeg. Tri phlentyn, mewn gwirionedd, ie dyna chi, tri phlentyn. Dair wythnos yn ôl ni ddaeth yr un ohonyn nhw adre o'r wlad. Fe'u harestiwyd mewn mynwent ac aed â nhw bant mewn fan. Dywed yr heddlu taw gyda nhw mae'r tri. Rwyf wedi gofyn pam, ond does dim ateb yn dod. Dyna sy'n digwydd yn Ne Affrica y dyddiau hyn. Nawr maen nhw hyd yn oed yn mynd â'n plant.

Bydda i'n mynd i swyddfa'r heddlu bob dydd cyn mynd i'r gwaith, ond does neb yno byth yn dweud gair. Bydda i'n aros gyda'r mamau eraill am ryw ddwyawr cyn mynd i dŷ Mr Tremeer, y plisman. Ydw, rwy'n dal i lanhau tŷ Mr Tremeer a gofalu am anghenion Peter, ei fab. Pymtheng mlynedd o wasanaeth. Pymtheng mlynedd o fagu mab rhywun arall er bod hwnnw bellach yn ddyn. Mae Peter yntau'n dad erbyn hyn. Mae e'n briod ac mae gyda fe wraig a babi bach. Mab naw mis oed a hwnnw'n tynnu ar ôl ei dad. Maen nhw'n deulu digon serchus. Maen nhw'n gyflogwyr digon piwr. Mae eu bywyd yn ddi-boen a'u byd i gyd yn wyn.

Y bore 'ma, yn ôl fy arfer, daliais y bws i swyddfa'r heddlu ac aros yno gyda'r lleill. Ond yn ôl eu harfer ni ddywedodd y plismyn ddim. Arhosais am ddwyawr, ac wrth imi adael i fynd i'r gwaith gwelais Mr Tremeer yn cyrraedd. Mae e'n drydydd o ran pwysigrwydd yn y swyddfa honno. Mae e'n ddyn pwysig iawn. Edrychodd yn syn arna i ond ni ddywedodd yr un gair.

Rwy'n poeni'n ofnadwy am fy meibion.

Yn hwyr y prynhawn 'ma dychwelodd Mr Tremeer i'r tŷ. Roeddwn i ar fin mynd tua thre. Gofynnodd beth oedd enwau fy meibion. Llamodd fy nghalon. Atebais

ddwywaith. Yna troes heb ofyn rhagor ac aeth i'w swyddfa ym mhen draw'r cyntedd. Arhosais innau ar ganol llawr y gegin a'm calon yn curo yn fy mhen. Eisoes gallwn ddychmygu fy meibion yn rhedeg tuag ata i. Gallwn deimlo'u hwynebau glân yn gwasgu yn erbyn fy nghorff. Ar ôl pymtheng mlynedd o wasanaeth i Mr Tremeer, hon yn anad dim, fe gredwn, oedd ei weithred fwya cymwynasgar. Pan ddaeth e'n ôl i'r gegin rhuthrais tuag ato. Dywedodd yn ei lais digyffro fod fy meibion yn y ddalfa yn agos i fan hyn a bod y tri wedi cael eu harestio o dan bwerau arbennig y wladwriaeth. Doedd gyda fe ddim rhagor o wybodaeth.

Fe goda i'n fore bore fory pan fydd y dreflan gyfan o hyd yn breuddwydio'u delweddau du a gwyn. Ac fe gerdda i drwy'r rhesi unffurf, digymeriad, heibio i gartrefi fy nghymdogion, i ddala'r bws i dŷ Mr Tremeer yn y ddinas wen. Ac yno af i ati fel arfer i wneud fy ngwaith. A phan fydd hi'n dawel, tua diwedd y bore, af i lan i ystafell y babi bach. Fe ddoda i siôl amdano a mynd ag e at Martha yn y dreflan ddu. Ac yno y caiff ei gadw hyd nes i'm meibion ddod adre.

[Ymddangosodd y stori hon yn wreiddiol yn *A Sydd am Afal* a gyhoeddwyd yn 1989 gyda'r bwriad o godi arian i gynorthwyo yn y frwydr i drechu AIDS. Ar y pryd roedd pobl De Affrica'n dal i ddioddef gorthrwm apartheid. Trechwyd y gyfundrefn honno. Y gelyn, bellach, yw AIDS.]